Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

15 Rhagfyr 2009

Annwyl Syr / Madam

Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i'r ddarpariaeth o fannau diogel i chwarae a chymdeithasu

Yn ystod y prosiect 'Chdi sy'n Bwysig' a gynhaliwyd yn ystod haf 2009, dywedodd plant a phobl ifanc Cymru wrthym eu bod yn pryderu am y lefel bresennol o fannau diogel i chwarae a chymdeithasu sy'n cael eu darparu ar eu cyfer yng Nghymru. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi penderfynu cynnal ymchwiliad i'r ddarpariaeth o fannau diogel i chwarae a chymdeithasu. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor i'w weld yn atodiad 1.

Galwad am dystiolaeth ysgrifenedig

Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn clywed eich barn ar y materion sy'n effeithio ar y ddarpariaeth o fannau diogel i chwarae a chymdeithasu, a'r rhwystrau o ran cael mynediad atynt. Croesewir cyflwyniadau ysgrifenedig sy'n mynd i'r afael â rhai o'r meysydd a nodir yn y cylch gorchwyl, neu'r meysydd i gyd.

Galwad am dystiolaeth gan blant a phobl ifanc

Rydym yn awyddus i annog plant a phobl ifanc i roi eu barn i ni ar y materion. Mae linciau i fersiynau electronig o'r holiaduron ar gyfer plant a phobl ifanc i'w gweld yn atodiad 2. Gellir cael copïau caled o'r holiaduron trwy anfon e-bost at:
children&youngpeoplecommittee@cymru.gsi.gov.uk

Bydd y Pwyllgor hefyd yn croesawu fideos a delweddau ffotograffig fel tystiolaeth gan blant a phobl ifanc yn lle tystiolaeth ysgrifenedig, neu yn ychwanegol at hynny. Dylai fideos a thystiolaeth ffotograffig fod yn addas ar gyfer eu darlledu a dylid eu cyflwyno mewn modd sy'n dangos barn y ffotograffydd yn glir. Ni ddylai'r fideos fod dim mwy na

5 munud o hyd. Mae'r ffurflenni cydsynio sy'n cynnwys y telerau a'r amodau ar gyfer cyflwyno fideos a thystiolaeth ffotograffig hefyd i'w gweld yn atodiad 3. Noder na allwn dderbyn fideos na thystiolaeth ffotograffig heb y caniatâd priodol.

Sut i gyflwyno tystiolaeth

Dylid cyflwyno'r holl dystiolaeth ar ffurf electronig lle mae hynny'n bosibl, at children&youngpeoplecommittee@cymru.gsi.gov.uk erbyn dydd Gwener 19 Chwefror 2010 fan bellaf.

Gellir cyflwyno copïau caled o'r holiaduron trwy eu hanfon i'r cyfeiriad isod:

Abigail Phillips
Rhadbost SWC 3358
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
BAE CAERDYDD
CF99 1GY

Os na allwch gyflwyno'ch tystiolaeth mewn unrhyw un o'r ffyrdd hyn, cysylltwch â Chlerc y Pwyllgor, Abigail Phillips, i drafod dulliau eraill o gyflwyno tystiolaeth.

Noder na allwn ddychwelyd unrhyw dystiolaeth ar ôl ei gyflwyno.

Datgelu Gwybodaeth
Dylai tystion fod yn ymwybodol y caiff unrhyw dystiolaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor ei thrin fel eiddo'r Pwyllgor. Bwriad y Pwyllgor yw rhoi papurau ysgrifenedig a rhai fideos a thystiolaeth ffotograffig ar ei wefan, ac efallai y cânt eu hargraffu ac y byddant ar gael gyda'r adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n ddata personol yn ei farn ef heb ganiatâd y person y mae'r wybodaeth yn eiddo iddo. Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os ydych yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros

hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb.

Yn gywir,

Helen Mary Jones AC,
Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Cylch gorchwyl

Ymchwilio i brofiadau plant (11 oed neu iau) a phobl ifanc (rhwng 11 a 18 oed) yng Nghymru, o ran mynediad i fannau diogel i chwarae a chymdeithasu.

Bydd yr ymchwiliad yn:

- **Ystyried materion sy'n effeithio ar brofiadau chwarae grwpiau penodol o blant a phobl ifanc,** gan gynnwys**:**
    - plant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig;
    - plant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig ac sydd o gartrefi incwm isel;
    - plant a phobl ifanc anabl;
    - plant a phobl ifanc sy'n perthyn i grwpiau ymylol, fel y gymuned Sipsiwn-Teithwyr.
- **Adolygu'r materion sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth bresennol,** gan gynnwys:
    - cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth;
    - yr hyn y gellir ei wneud i wella diogelwch a'r ymdeimlad o ddiogelwch, mewn adnoddau chwarae a hamdden cymunedol presennol;
    - costau darparu mynediad, gan gynnwys costau cludiant.
- **Adolygu effeithiolrwydd y polisïau a'r mentrau presennol i ddarparu mannau diogel i chwarae a chymdeithasu,** gan gynnwys:
    - Polisi Chwarae Llywodraeth y Cynulliad, a Chynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae;
    - effeithiau posibl y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru);
    - y gwasanaethau ieuenctid a hamdden sydd ar gael yn bresennol;
    - y polisi cynllunio, a rhoi'r polisi ar waith;
    - y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a weithredir gan Lywodraeth Cymru;
    - rôl ysgolion ac, yn benodol, ysgolion bro;
    - parthau tai;
    - mentrau diogelwch cymunedol, gan gynnwys Partneriaethau a Chymunedau Ynghyd (PACT).

- **Archwilio effeithiau rhwystrau penodol i fannau diogel i chwarae a chymdeithasu,** gan gynnwys:
    - bwlio;
    - ystrydebau negyddol o blant a phobl ifanc/canfyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol;
    - materion yn ymwneud â thraffig a diogelwch ar y ffyrdd.

Atodiad 2

Linc i'r holiadur ar chwarae y tu allan

Linc i'r holiadur ar gymdeithasu

Annex 3

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

FFURFLEN GANIATÂD

Lluniau ffotograffig a fideo

1. Defnyddir y ffurflen hon i gasglu tystiolaeth ffotograffig a fideo i'w chyflwyno i ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i fannau diogel i chwarae a chymdeithasu.

2. Mae'r ffurflen hon yn gofyn am ganiatâd gan yr unigolyn neu riant, gofalwr neu warcheidwad yr unigolyn sy'n:-

   (i) creu neu'n cynhyrchu; neu

   (ii) sy'n ymddangos mewn;

   llun/lluniau ffotograffig neu fideo a ddefnyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

3. Rhaid i'r ffurflen hon gael ei llenwi gan yr unigolyn sy'n rhoi'r caniatâd, neu riant, gofalwr neu warcheidwad yr unigolyn os yw'r unigolyn hwnnw o dan 18 mlwydd oed cyn i'r lluniau gael eu cymryd neu cyn i'r fideo gael ei wneud.

4. Drwy lofnodi'r ffurflen hon, rydych yn deall ac yn cytuno:-

   (i) nad oes rhaid i chi gymryd rhan, ond eich bod yn cytuno gwneud hynny;

   (ii) gallai'r ffaith eich bod yn ymddangos yn y llun/lluniau olygu y bydd pobl yn eich adnabod mewn unrhyw raglen, ffilm, eitem, erthygl neu gyfrwng arall allai gynnwys y llun/lluniau.

5. Drwy lofnodi'r ffurflen hon, rydych yn rhoi caniatâd i'r Cynulliad Cenedlaethol:-

   (i) ddefnyddio'r llun/lluniau i hyrwyddo ei weithgareddau mewn unrhyw ffordd neu fformat y mae'n credu sy'n addas, gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i) adroddiadau pwyllgorau, ei wefan, gwefannau trydydd parti gan gynnwys gwefannau

rhwydweithio cymdeithasol, ac mewn unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo, darllediadau neu gyfryngau eraill;

(ii) bod yn berchen ar hawliau'r llun/lluniau;

(iii) cadw'r llun/lluniau am bum mlynedd ar ôl y dyddiad ar y ffurflen hon. Ar ôl y dyddiad hwn, ni ddefnyddir y llun/lluniau heb ofyn am ganiatâd unwaith eto;

(iv) defnyddio'r llun/lluniau:-

(a) er bod y llun/lluniau wedi newid, wedi cael eu haddasu, wedi cael eu gwyrdroi, yn aneglur neu'n cael eu defnyddio ar y cyd â thestun neu sain; a

(b) er na all y Cynulliad Cenedlaethol reoli sut y defnyddir y llun/lluniau ar wefannau eraill nad ydynt yn rhai'r Cynulliad Cenedlaethol, nac unrhyw drydydd parti a allai newid, diwygio, hagru neu gamddefnyddio'r llun/lluniau.

OS YDYCH O DAN 18 MLWYDD OED, GOFYNNWCH I'CH RHIANT/GOFALWR/GWARCHEIDWAD LOFNODI'R FFURFLEN

YR UNIGOLYN SY'N CREU, CYNHYRCHU NEU'N YMDDANGOS YN Y LLUN/FIDEO

Enw

Cyfeiriad

Llofnod

Dyddiad

Ffôn / Ffôn symudol

MANYLION Y RHIANT/GOFALWR/GWARCHEIDWAD (LLE BO HYNNY'N BERTHNASOL)

Enw

Cyfeiriad

Llofnod

Dyddiad

Ffôn / Ffôn symudol